


SENEDD IEUENCTID CYMRU

# RHEOLAU ETHOLIAD




[seneddieuencid.cymru](http://seneddieuencid.cymru)



# CYNNWYS

<b>1.</b>	<b>CYFLWYNIAD .....</b>	<b>5</b>
<b>2.</b>	<b>ETHOLIAD SENEDD IEUENCTID CYMRU.....</b>	<b>5</b>
<b>3.</b>	<b>PWY SY’N GYMWYS I SEFYLL AR GYFER ETHOLIAD AC I BLEIDLEISIO</b>	<b>6</b>
<b>4.</b>	<b>YMGEISWYR A PHLEIDLEISWYR .....</b>	<b>8</b>
<b>5.</b>	<b>ETHOLAETHAU .....</b>	<b>9</b>
<b>6.</b>	<b>YMARFER ETHOLIAD.....</b>	<b>10</b>
<b>7.</b>	<b>PLEIDLEISWYR A PHLEIDLEISIO .....</b>	<b>11</b>
<b>8.</b>	<b>CANLYNIADAU’R ETHOLIAD.....</b>	<b>11</b>
<b>9.</b>	<b>CADW GWYBODAETH .....</b>	<b>12</b>
<b>10.</b>	<b>RHAGOR O WYBODAETH .....</b>	<b>13</b>



## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Lluniwyd y ddogfen hon gan Gomisiwn y Senedd i'w defnyddio ar gyfer ethol Aelodau Senedd Ieuencid Cymru yn 2024.

## 2. ETHOLIAD SENEDD IEUENCTID CYMRU

**2.1.** Bydd gan Senedd Ieuencid Cymru le ar gyfer 60 o Aelodau o Senedd Ieuencid Cymru.

**2.2.** Caiff proses etholiadol electronig ei defnyddio i ethol 40 o Aelodau Senedd Ieuencid Cymru drwy system 'cyntaf i'r felin', gan ethol un person ifanc ar gyfer pob un o'r 40 etholaeth etholiadol yng Nghymru, fel sydd ym mharagraff **Error! Reference source not found.**

**2.3.** Bydd y system etholiad ar gyfer ethol y 40 aelod etholaethol ar gyfer etholiad 2024 yn cael ei gweinyddu gan Assembly Voting.

**2.4.** At ddibenion yr etholiadau i Senedd Ieuencid Cymru, caiff y 40 etholaeth eu diffinio fel y 40 ardal a ddefnyddiwyd fel yr etholaethau ar gyfer etholiad y Senedd 2021. Mae gwybodaeth am y 40 etholaeth etholiadol ar gael yma:

**[senedd.cymru/aelodau](https://senedd.cymru/aelodau)**.

**2.5.** Bydd yr 20 Aelod o Senedd Ieuencid Cymru sy'n weddill yn cael eu hethol drwy sefydliadau partner a fydd yn cynnal eu hetholiad mewnol i benderfynu ar yr Aelodau o Senedd Ieuencid Cymru.

**2.6.** Nid oes yn rhaid i'r etholiadau sefydliad partner redeg ar yr un pryd â'r etholiad ar gyfer y 40 aelod etholaethol (er y byddai hyn yn well), ond mae'n rhaid rhoi manylion holl Aelodau Senedd Ieuencid Cymru a gaiff eu hethol gan sefydliadau partner i Gomisiwn y Senedd erbyn diwedd cyfnod yr etholiad cenedlaethol, sef 25 Tachwedd. Os na all sefydliad partner gynnig ymgeisydd erbyn yr amser hwn, dylai hysbysu Delyth Lewis, Rheolwr Prosiect Senedd Ieuencid Cymru drwy e-bostio **[helo@seneddieuencid.cymru](mailto:helo@seneddieuencid.cymru)** neu ffonio **0300 200**

**6565.** Bydd angen i sefydliadau partner roi enw'r ymgeisydd llwyddiannus, ei fanylion cyswllt, ei ddyddiad geni, proffil yr ymgeisydd, y 3 tri mater allweddol ganddo a llun ohono'i hun i Gomisiwn y Senedd.

**2.7.** Ni ddylai sefydliadau partner ac ymgeiswyr llwyddiannus a etholwyd gan sefydliadau partner gyhoeddi yn gyhoeddus pwy sydd wedi cael ei ethol fel Aelod Senedd Ieuencid Cymru nes y bydd Comisiwn y Senedd yn cyhoeddi'r aelodau ym mis Rhagfyr 2024.

**2.8.** Dylai fod gan sefydliadau partner ymgeisydd wrth gefn, sef y person a ddaeth yn ail yn etholiad y sefydliad partner.

### **3. PWY SY’N GYMWYS I SEFYLL AR GYFER ETHOLIAD AC I BLEIDLEISIO**

**3.1.** Yn amodol ar baragraffau 3.4 i 3.6, mae unrhyw berson ifanc 11 - 17 oed sy’n cydymffurfio â pharagraff 3.2 yn gymwys i sefyll yn etholiad etholaeth Senedd leuenctid Cymru ac i bleidleisio ynddo. At y diben hwn, caiff person ifanc ei ddiffinio fel rhywun nad yw’n iau nag 11 oed ac nad yw’n hŷn nag 17 oed ar ddiwrnod olaf yr etholiad (25 Tachwedd).

**3.2.** Mae unrhyw berson ifanc sy’n byw yng Nghymru neu’n derbyn addysg yma yn gymwys i sefyll fel ymgeisydd, a phleidleisio yn etholiad etholaeth Senedd leuenctid Cymru. Caiff ‘byw yng Nghymru’ ei ddiffinio fel preswlydd yn barhaol neu’n rheolaidd yng Nghymru. Caiff ‘derbyn addysg yng Nghymru’ ei ddiffinio fel person ifanc sy’n derbyn y rhan fwyaf o’i addysg yng Nghymru.

**3.3.** Gall y bobl ifanc hynny sy’n gymwys sefyll fel ymgeisydd a phleidleisio naill ai yn yr etholaeth lle maent yn byw neu’n derbyn eu haddysg (os ydynt yn wahanol).

**3.4.** Nid yw person ifanc sy’n gwasanaethu dedfryd o garchar na fydd yn cael ei ryddhau ohoni cyn i ganlyniad yr etholiad gael ei gyhoeddi gan Gomisiwn y Senedd yn gymwys i sefyll na phleidleisio fel ymgeisydd i’w ethol i Senedd leuenctid Cymru.

**3.5.** Yn amodol ar baragraff 3.4, ni fydd person ifanc sydd wedi cael euogfarn neu rybudd neu sydd wedi bod yn destun gorchymyn tebyg\* am drosedd berthnasol\*\* yn gymwys yn awtomatig i sefyll na’i wahardd yn awtomatig rhag sefyll yn etholiad Senedd leuenctid Cymru. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i berson ifanc sy’n dymuno sefyll fel ymgeisydd ar gyfer etholiad roi gwybod i Gomisiwn y Senedd os yw wedi cael euogfarn, rhybudd, neu orchymyn tebyg am drosedd berthnasol. Byddwn yn ystyried pob enwebiad yn unigol. Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried ein rhwymedigaethau o ran diogeledd, iechyd a diogelwch, llesiant a diogelu i’r person ifanc hwnnw, Aelodau o’r Senedd a’u staff, aelodau eraill o Senedd leuenctid Cymru, staff Comisiwn y Senedd a’r cyhoedd. Lle bo angen a lle bo’n gymesur, efallai y byddwn hefyd yn cysylltu ag asiantaethau eraill er mwyn asesu'r risg berthnasol ac ystyried sut i reoli'r risg honno. Wrth wneud hynny, bydd Comisiwn y Senedd yn hysbysu’r person ifanc dan sylw a/neu’n ceisio caniatâd y person hwnnw yn ôl yr angen. Mae gan Gomisiwn y Senedd ddisgresiwn llwyr o ran penderfyniad terfynol ynghylch pwy sy’n gymwys, ac mae ei benderfyniad yn derfynol.

**3.6.** O dan yr amgylchiadau sydd wedi'i hamlinellu ym mharagraff 3.5, bydd Tîm y Senedd Ieuencid yn cysylltu ag unrhyw berson ifanc sydd â diddordeb mewn cynnig ei hun am enwebiad ac sydd wedi cael euogfarn, rhybudd neu'n destun gorchymyn tebyg am drosedd berthnasol ar ôl y cais, a hynny gan ddefnyddio'r manylion cyswllt sy'n cael eu cyflwyno i drafod ei ddiddordeb ymhellach. Gall unrhyw un sydd ag ymholiadau pellach am y weithdrefn hon gysylltu â Delyth Lewis, Rheolwr Prosiect Senedd Ieuencid Cymru, drwy e-bostio

[helo@seneddieuencid.cymru](mailto:helo@seneddieuencid.cymru) neu ffonio **0300 200 6565** am ragor o wybodaeth.

**3.7.** Mae rhagor o wybodaeth am sut mae Comisiwn y Senedd yn trin ac yn defnyddio data personol sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol, rhybuddion a throseddau perthnasol sy'n cael eu casglu fel rhan o'ch cais i sefyll fel Aelod o Senedd Ieuencid Cymru i'w gweld yn hysbysiad preifatrwydd perthnasol y Comisiwn yma **Polisi Preifatrwydd (senedd.cymru)**.

**3.8.** Mae'n ofynnol i unrhyw berson ifanc gysylltu â Delyth Lewis, Rheolwr Prosiect Senedd Ieuencid Cymru, drwy e-bostio [helo@seneddieuencid.cymru](mailto:helo@seneddieuencid.cymru), neu ffonio **0300 200 6565** ar unwaith os bydd yn cael euogfarn, rhybudd neu'n destun gorchymyn tebyg am drosedd berthnasol ar ôl i'w enwebiad ddod i law ond cyn i Gomisiwn y Senedd gyhoeddi canlyniad yr etholiad.

---

\* gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i rybuddion terfynol a gorchmynion troseddwr treisgar

\*\* mae trosedd berthnasol yn drosedd sy'n gwneud aelodau o Senedd Ieuencid Cymru, Aelodau o'r Senedd a/neu eu staff, staff Comisiwn y Senedd a/neu'r cyhoedd yn agored i risgiau posibl o ran diogeledd, iechyd a diogelwch, llesiant a diogelu, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y canlynol:

- a. trosedd dreisgar benodedig neu drosedd rywiol benodedig o fewn ystyr Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003
- b. troseddau sy'n ymwneud â drylliau neu losgi bwriadol
- c. troseddau sy'n ymwneud â chyflenwi cyffuriau neu sylweddau rheoledig yn anghyfreithlon lle mae gwerthu cyffuriau masnachol neu fasnachu yn gysylltiedig
- d. troseddau sy'n ymwneud â therfysgaeth neu sy'n gysylltiedig â therfysgaeth

## 4. YMGEISWYR A PHLEIDLEISWYR

**4.1.** Mae Comisiwn y Senedd (gan weithredu'n rhesymol) yn cadw'r hawl i wrthod derbyn cais am enwebiad.

**4.2.** Bydd yr holl geisiadau i enwebu ymgeiswyr yn cael eu gwirio gan Gomisiwn y Senedd.

**4.3.** I gofrestru i bleidleisio yn etholiad Senedd Ieuenctid Cymru, bydd angen i bobl ifanc cymwys o adran 3 uchod gyflwyno'r wybodaeth ganlynol ar y llwyfan Assembly Voting:

- Enw cyntaf ac olaf
- Cyfeiriad e-bost
- Dyddiad geni
- Y cod post cartref, neu'r cod post ar gyfer lle maent yn cael eu haddysg. Yr etholaeth y mae'r cod post a ddarperir ynddi fydd yr etholaeth y mae'r person ifanc sy'n cofrestru i bleidleisio yn gymwys i bleidleisio ar ei chyfer.
- Man dysgu (dewisol)

**4.4.** Bydd gan bobl ifanc sy'n cofrestru i bleidleisio yn etholiad Senedd Ieuenctid Cymru yr opsiwn hefyd o ddarparu eu rhif ffôn symudol, ond nid oes rhaid iddynt wneud hynny er mwyn cofrestru. Mae gwybodaeth am sut y caiff rhifau ffôn symudol eu defnyddio, os cânt eu darparu, i'w gweld yn ein hysbysiad preifatrwydd: **Hysbysiad Preifatrwydd Cofrestru Pleidleiswyr (senedd.cymru)**.

**4.5.** Bydd angen i'r person ifanc sy'n cofrestru ddilysu'r cyfeiriad e-bost a ddarperir cyn bod modd cadarnhau'r cofrestrriad.

**4.6.** I gyflwyno enwebiad i ddod yn Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, rhaid i bobl ifanc sy'n gymwys o dan adran 3 gyflwyno'r wybodaeth ganlynol ar y llwyfan Assembly Voting:

- Enw cyntaf ac olaf
- Cyfeiriad e-bost
- Rhif ffôn
- Cyfeiriad cartref
- Dyddiad geni



- Yr etholaeth y maent am sefyll i gael eu hethol ynddi (sef naill ai'r cod post cartref, neu'r cod post ar gyfer lle maent yn cael eu haddysg). Mae gwybodaeth am y 40 etholaeth etholiadol ar gael yma [senedd.cymru/aelodau](https://www.senedd.cymru/aelodau).
- Y 3 mater allweddol a ddewiswyd i ymgyrchu drostynt os caiff ei ethol – mae cyfyngiad o 5 gair ar gyfer pob mater.
- Datganiad yr ymgeisydd (dylai ganolbwyntio ar y rhesymau pam y creda y bydd yn Aelod da o Senedd Ieuencid Cymru) - dim mwy na 200 o eiriau.
- Ffotograff cywir ohono (dewisol) ar fformat JPEG heb fod yn fwy na 4mb.

**4.7.** Rhaid i ymgeiswyr lenwi'r blychau gwirio perthnsol sy'n datgan eu bod yn cadarnhau bod y wybodaeth y maent wedi'i darparu yn gywir, ac y byddant yn cydymffurfio â'r rheolau etholiadol a'r cod ymddygiad (os byddant yn cael eu hethol). Bydd angen caniatâd rhieni hefyd i lenwi'r ffurflen.

**4.8.** Gall pobl ifanc cymwys sefyll ar gyfer eu hethol mewn etholaeth wahanol i'r un y maent yn pleidleisio ynddi, os dymunant. Bydd gofyn i bobl ifanc sy'n ceisio cofrestru i bleidleisio a/neu sefyll ar gyfer eu hethol ddewis etholaethau lle maent yn byw neu'n derbyn eu haddysg, a fydd mewn yn wahanol mewn rhai achosion.

## 5. ETHOLAETHAU

**5.1.** Bydd un Aelod o Senedd Ieuencid Cymru yn cael ei ethol ar gyfer pob etholaeth. Bydd yr ymgeiswyr sy'n cael eu hethol yn gwasanaethu am gyfnod o ddwy flynedd.

**5.2.** Yn achos person ifanc sydd wedi'i ethol drwy'r etholiad 'cyntaf i'r felin', a thrwy'r sefydliad partner, y person ifanc fydd yn penderfynu pa sedd y mae'n ei dewis (yn amodol at 5.3 isod). Os bydd yn penderfynu cael ei ethol gan sefydliad partner, bydd y sedd etholaethol yn cael ei chynnig i'r person ifanc nesaf yn yr etholaeth honno gyda'r mwyaf o bleidleisiau. Os bydd y person ifanc yn dewis y sedd etholaethol, rhaid bod gan y sefydliad partner ymgeisydd wrth gefn, sef yr ail berson i'w ethol gan y sefydliad partner.

**5.3.** Os mai'r person ifanc yw'r unig ymgeisydd, yn yr etholiad cyntaf i'r felin ac felly'n cael ei ethol, ond hefyd yn cael ei ethol drwy sefydliad partner, bydd y person ifanc yn cymryd y sedd etholaethol yn awtomatig, a bydd y sefydliad partner yn ethol ymgeisydd wrth gefn, sef yr ail berson i'w ethol gan y sefydliad partner.

## 6. YMARFER ETHOLIAD

**6.1.** Bydd etholiadau ar gyfer Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru ar gyfer tymor 2024-26 yn cael eu cynnal ym mis Tachwedd 2024.

**6.2.** Cynhelir etholiadau etholaethol gan ddefnyddio'r system 'cyntaf i'r felin', gan ddefnyddio'r ffiniau etholaethol a ddisgrifir ym mharagraff 2.4 uchod. Mae'r system hon yn golygu y bydd yr ymgeisydd sydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau yn ennill y sedd. Cynhelir yr etholiadau etholaethol ar gyfer etholiadau Senedd Ieuenctid Cymru ar-lein.

**6.3.** Os bydd etholaeth ddiwrthwynebiad, bydd yr unig ymgeisydd sy'n sefyll ar gyfer ei ethol yn cael ei ethol fel Aelod Senedd Ieuenctid Cymru ar gyfer yr etholaeth honno.

**6.4.** Os na chaiff unrhyw ymgeiswyr eu henwebu mewn sedd benodol, caiff yr enwebiadau eu hystyngi tan ddechrau cyfnod yr etholiad ym mis Tachwedd 2024.

**6.5.** Mewn achos o bleidlais gyfartal, lle mae gan ddau neu ragor o ymgeiswyr yr un nifer o bleidleisiau, byddai'r ymgeiswyr yn tynnu lotiau i benderfynu ar yr ymgeisydd llwyddiannus.

**6.6.** Os bydd sedd yn wag oherwydd bod Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru yn methu â chwblhau ei dymor yn y swydd:

**6.6.1.** Os bydd sefydliad partner yn ei ethol, rhaid i'r sefydliad partner ethol ymgeisydd wrth gefn, sef yr ail berson i'w ethol gan y sefydliad partner.

**6.6.2.** Os caiff ei ethol drwy'r system cyntaf i'r felin, caiff y sedd ei chynnig i'r person ifanc gyda'r ail nifer uchaf o bleidleisiau. Os nad yw'r person hwnnw ar gael mwyach, cynigir i'r person ifanc â'r trydydd nifer uchaf o bleidleisiau ac yn y blaen. Os nad oes unrhyw pobl ifanc a oedd yn ymgeisio yn yr etholiad ar gael, caiff isetholiad tebyg i etholiad 2024 ei gynnal.

**6.6.3.** Bydd Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru sy'n llenwi seddi sydd wedi'u gadael yn wag o fewn tymor Senedd Ieuenctid Cymru yn gwasanaethu am weddill y tymor o ddwy flynedd, hyd at etholiad nesaf Senedd Ieuenctid Cymru.

**6.6.4.** Os yw sedd wag yn codi dros 18 mis o gyfnod y tymor o ddwy flynedd, bydd y sedd yn aros yn wag.

## 7. PLEIDLEISWYR A PHLEIDLEISIO

**7.1.** Mae gan bob person ifanc sy'n gymwys o dan adran 3 y cyfle i bleidleisio i ethol eu Haelod o Senedd Ieuencid Cymru.

**7.2.** Rhaid i bob person ifanc sy'n dymuno cymryd rhan yn etholiad Senedd Ieuencid Cymru gofrestru i bleidleisio ar y llwyfan Assembly Voting.

**7.3.** Bydd pob person ifanc sydd wedi cofrestru i bleidleisio yn etholiadau Senedd Ieuencid Cymru yn cael cod pleidleisio unigryw a linc i'r wefan bleidleisio ar ddechrau'r etholiad.

**7.4.** Bydd modd i bleidleiswyr gofrestru tan 20 Tachwedd.

**7.5.** Bydd linc i'r ymgeiswyr sy'n sefyll yn yr etholiad yn eu dewis etholaeth yn cael ei anfon at bob pleidleisiwr cofrestredig. Os yw'r pleidleisiwr wedi dewis cynnwys ei rif ffôn symudol, bydd papur pleidleisio yn cael ei anfon i'w ddyfais symudol a'i gyfeiriad e-bost. Caiff e-bost cadarnhad ei anfon unwaith y bydd wedi pleidleisio.

**7.6.** Dim ond unwaith y bydd pob person ifanc sydd wedi cofrestru i bleidleisio yn cael pleidleisio. Ni fydd y cod pleidleisio unigryw yn gweithio mwy nag unwaith.

**7.7.** Dylai pleidleiswyr â gofynion penodol i'w galluogi i bleidleisio e-bostio [helo@seneddieuencid.cymru](mailto:helo@seneddieuencid.cymru) os bydd angen cymorth pellach arnynt.

## 8. CANLYNIADAU'R ETHOLIAD

**8.1.** Wedi i'r etholiad gau ar 25 Tachwedd, caiff y pleidleisiau eu cyfrif yn awtomatig drwy'r llwyfan Assembly Voting.

**8.2.** Bydd Comisiwn y Senedd yn cysylltu â phob ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrinachol ar ôl i'r canlyniadau ddod i law, i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn fodlon dod yn Aelodau o Senedd Ieuencid Cymru. Ni ddylai ymgeiswyr llwyddiannus roi gwybod i unrhyw un yn gyhoeddus eu bod wedi cael eu hethol yn Aelod o Senedd Ieuencid Cymru nes eu bod wedi cael gwybod am gyhoeddiad ffurfiol ynghylch canlyniadau'r etholiad a'r aelodau etholedig ym mis Rhagfyr 2024.

**8.3.** Yn dilyn yr etholiad, bydd Senedd Ieuencid Cymru yn cyhoeddi'r 60 Aelod llwyddiannus o Senedd Ieuencid Cymru. Ni chaiff gwybodaeth am faint o bleidleisiau a gafodd pob ymgeisydd ei datgelu.

## 9. CADW GWYBODAETH

**9.1.** Mae gan Gomisiwn y Senedd wybodaeth breifatrwydd sy'n amlinellu sut mae'n prosesu gwybodaeth bersonol, gan gynnwys am ba mor hir y mae'n cadw'r wybodaeth hon. Mae hwn wedi'i rannu i'r hysbysiadau preifatrwydd a ganlyn:

- Gall gwybodaeth am sut mae'r Comisiwn yn prosesu data personol y rhai sy'n cofrestru i bleidleisio yn etholiadau Senedd Ieuencid Cymru fod yn hysbysiad preifatrwydd cofrestru pleidleiswyr y Comisiwn: **[Hysbysiad Preifatrwydd Cofrestru Pleidleiswyr \(senedd.cymru\)](#)**;
- Mae gwybodaeth am sut mae'r Comisiwn yn prosesu data personol enwebeion i'w gweld yn ei hysbysiad preifatrwydd enwebiadau: **[Hysbysiad Preifatrwydd Enwebiadau Ymgeisydd \(senedd.cymru\)](#)**;
- Mae gwybodaeth gyffredinol am sut caiff data personol eu prosesu mewn perthynas â Senedd Ieuencid Cymru i'w gweld yn y prif hysbysiad preifatrwydd: **[Polisi Preifatrwydd \(senedd.cymru\)](#)**.

**9.2.** I grynhoi pa mor hir y caiff gwybodaeth bersonol ei chadw, bydd Comisiwn y Senedd yn cadw manylion yr holl enwebeion a'r canlyniadau pleidleisio drwy gydol y tymor dwy flynedd.

**9.3.** Yn amodol ar baragraff 9.4, bydd unigolion sy'n cofrestru i bleidleisio yn parhau i fod yn gofrestredig yn dilyn canlyniadau'r etholiad, a bydd eu cofrestriad yn cael ei drosglwyddo i'r etholiad nesaf.

**9.4.** Bydd Comisiwn y Senedd yn adolygu'r rhestr o bleidleiswyr cofrestredig ar ddiwedd pob tymor ac yn dileu unrhyw bleidleiswyr cofrestredig na fyddant yn gymwys ar gyfer yr etholiad Senedd Ieuencid Cymru nesaf oherwydd eu hoedran. Gall pleidleiswyr cofrestredig hefyd ofyn i'w gwybodaeth gael ei dileu drwy e-bostio **[helo@seneddieuencid.cymru](mailto:helo@seneddieuencid.cymru)**.

**9.5.** Wedi i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi, bydd yr holl wybodaeth enwebu ar gyfer etholiad sy'n cael ei chasglu fel rhan o'ch cais, ac eithrio peth gwybodaeth bersonol yn ymwneud â cholffarnau troseddol, rhybuddion a throseddau perthnasol yr ystyrir nad oes angen ei chadw ar ôl chwe mis, yn cael ei chadw gan Gomisiwn y Senedd mewn man diogel drwy gydol y tymor dwy flynedd. Mae hyn rhag ofn y daw ymholiad i law am yr etholiad neu os bydd angen ymgeisydd wrth gefn. Yn dilyn hyn, caiff dogfennau'n ymwneud ag unigolion a wnaeth gais i ddod yn Aelodau o Senedd Ieuencid Cymru eu dileu.

## 10. RHAGOR O WYBODAETH

**10.1.** Er mai bwriad y ddogfen hon yw darparu'r paramedrau ar gyfer etholiad 2024, rydym yn deall y gall fod cwestiynau ychwanegol a all godi. I gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad, cysylltwch â Chomisiwn y Senedd gan ddefnyddio'r manylion isod:

**Senedd Cymru**

**Tîm Senedd Ieuenctid Cymru**

**Tŷ Hywel**


**Bae Caerdydd**


**Caerdydd**

**CF99 1SN**

**[helo@seneddieuenctid.cymru](mailto:helo@seneddieuenctid.cymru)**

**0300 200 6565**







**GWEFAN:** *SENEDDIEUENCTID.CYMRU*

**INSTAGRAM:** *SENEDDIEUENCTIDCYMRU*

**FACEBOOK:** *SENEDDIEUENCTIDCYMRU*

**X:** *@SENEDDIEUENCTID*